

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd
DYDDIAD	9fed Ebrill 2019
PWNC	Rhaglen waith (ddrafft) 2019/20
PWRPAS	Cyflwyno drafft o'r rhaglen waith ar gyfer 2019/20 gogyfer sylwadau'r Aelodau.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y 12fed o Chwefror 2019 bu i'r aelodau benderfynu cynnal tri cyfarfod o'r pwyllgor yn flynyddol er mwyn sicrhau y defnydd gorau o amser ac adnoddau.
2. Wrth ystyried y newid, nodwyd yr angen i gynllunio'r amser yn synhwyrol, ac felly i'r perwyl hwn, cyflwynir raglen waith ddrafft isod er ystyriaeth y pwyllgor.
3. Rwy'n pwysleisio yn barhau ar aelodau i adrodd ar bryderon am y gefnogaeth a roddir i chi yn eich rôl, neu yn wir syniadau am sut y gellir gwella. Gellir adrodd wrthyf fi neu Gadeirydd y pwyllgor fel y gellir eu hystyried ymhellach.
4. Noder fod eitem benodol wedi ei chynnwys ar y rhaglen isod ar gyfer cyfarfod 27ain o Fehefin 2019 i drafod materion yn codi gan aelodau.
5. O edrych ar yr eitemau sydd wedi eu cyflwyno i bwyllgor ers mis Mai 2017, argymhellir y gellir ystyried y prif eitemau a ganlyn ar gyfer blwyddyn 2019/20.

Cyfarfod 27/06/19
<ul style="list-style-type: none"> • Ethol Is-Gadeirydd • Materion yn codi gan aelodau * • Gwe-ddarlledu
Cyfarfod 19/11/19
<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol • Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig (adolygu sut aeth a pharatoi at y rownd nesaf) • Porth Aelodau – diweddariad ar y datblygiad
Cyfarfod 09/04/19
<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth • Adroddiad terfynol Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol • Calendr blynyddol y Cyngor • Hyfforddiant Aelodau • Cyfweiliadau datblygiad personol

Mae rhai materion nad ydynt wedi eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond rhagwelir y bydd y materion isod gerbron:

- Datblygiadau yr is-grŵp amrywiaeth
- Technoleg Gwybodaeth
- Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â Llywodraeth Leol